Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL

**Panel Heddlu A Throseddu Dyfed-Powys**
D/O Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gar, SA31 1JP.

**Dyfed Powys Police and Crime Panel**
C/O Chief Executive's Department
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP

Dyddiad / Date: 23/01/2026

**Mr Dafydd Llewelyn,**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd,**
**Heddlu Dyfed-Powys,**
**Pencadlys yr Heddlu,**
**Llangynnwr,**
**Caerfyrddin.**

Annwyl Gomisiynydd,

Ynghylch: Adolygiad o braesept arfaethedig yr heddlu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027

Ysgrifennaf atoch er mwyn cadarnhau bod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, yn unol â gofynion Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, wedi adolygu eich cynnydd arfaethedig o 7.47% yn y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol uchod yn ei gyfarfod ar 23/01/2026. A fyddech cystal â derbyn y llythyr hwn fel adroddiad y Panel mewn perthynas â'r adolygiad hwnnw.

Fel y gwyddoch, cefnogodd y Panel y praesept arfaethedig yn unfrydol ac ni wnaeth arfer ei bŵer i roi o feto.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi, a'r swyddogion o'ch swyddfa a'r llu, am y wybodaeth gynhwysfawr a roddwyd i is-grŵp cyllid y Panel drwy gydol y flwyddyn a'r Panel ehangach yn y seminar ym mis Tachwedd 2025, ac yng nghyfarfod y Panel heddiw. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich bod chi a'r swyddogion hynny wedi bod yn agored ac yn dryloyw wrth ymdrin â'r dasg hon.

Yn gywir
*ppRJEdgecombe*
Yr Athro Ian Roffe (Cadeirydd y Panel)